

## RICHARDS, JOHN ('Iocyn Ddu'; 1795 - 1864)

**Enw:** John Richards  
**Ffugenw:** Iocyn Ddu  
**Dyddiad geni:** 1795  
**Dyddiad marw:** 1864  
**Rhiant:** James Richards  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 1795 yn Llannerch-y-medd, yn fab i James Richards, siopwr, ac yn nai i John Richards, clerigwr - dywedir eu bod o deulu Edward Richard o Ystrad Meurig. Bwriad o'i oes (hyd 1844) yn swyddog y doll yn Lerwyl, ond priododd yn dda, a bu'n byw yn Nhre-lorwerth (Bodedern) a Chaernarfon - dechreuodd godi plasty gerllaw Llannerch-y-medd, ond bu farw cyn ei orffen. Yr oedd yn ysgol Ystrad Meurig ar yr un pryd a 'Dewi o Ddyfed' a 'Carn Ingl,' a bu ar hyd ei oes yn ymddiddor ym yr un pethau - canodd rai awdlau. Ond yr amgylchiad a ddug iddo 'enwogrwydd,' amheus braidd, oedd y feirniadaeth ar yr awdl yn eisteddfod Aberffraw yn 1849. Rhwng 'Emrys' a 'Nicander' yr oedd y wir gystadleuaeth; barnai 'Eben Fardd' mai 'Emrys' oedd y gorau, ond daliai 'Iocyn Ddu' yn dynn dros 'Nicander,' a mynnodd gan y trwydd beirniad, 'Chwaneg Môn' (Joseph Jones), a oedd ar y dechrau am wobrwy 'Bardd Du Môn' (R. M. Williamson), ddyfarnu gydag ef dros 'Nicander'; bu'r peth yn destun dadl frwd yn y Wasg, na larieiddiwyd dim arni gan y ffaith mai Eglwyswyr oedd y beirniad a'r bardd a orfu, a'r beirniad a'r bardd arall yn Ymneilltuwyr. Bu 'Iocyn Ddu' farw 17 Tachwedd 1864.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Richard Parry ('Gwalchmai'), *Enwogion MÃ'an: henafol a diweddar, mewn cofnodau hanesol* (1877)

Y Geninen, 1900, 70, a 1912

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 694-5

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361382

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Jenkins, R. T., (1953). RICHARDS, JOHN ('Iocyn Ddu'; 1795 - 1864). Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c1-RICH-JOH-1795>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government